OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 664 (Cy.77)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd (Diddymu) 2013

Gwnaed - - - -	*19 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*20 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*11 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 128(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Morgannwg ("*the University of Glamorgan Higher Education Corporation*")(**3**), sef corff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol o fewn ystyr adran 128(1)(b)(ii) o'r Ddeddf honno, wedi cydsynio i eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd ("*University of Wales, Newport Higher Education Corporation*")(**4**) gael eu trosglwyddo iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd ac â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unol ag adran 128(4) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd (Diddymu) 2013 a daw i rym ar 11 Ebrill 2013.

(**1**) 1988 p.40. Diwygiwyd adran 128 gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), Atodlen 8, paragraff 34; Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 16; Deddf Addysg 2011 (p.21), adran 67 ac Atodlen 16, paragraff 8; Deddf Elusennau 2011 (p.25), Atodlen 7, paragraff 51; Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) (Cy.243), Atodlen 1, paragraff 12 a Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080), paragraffau 15 ac 16.

(**2**) Trosglwddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 128, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) Sefydlwyd fel corfforaeth addysg uwch o dan adran 122(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn rhinwedd O.S. 1991/1976.

(**4**) Sefydlwyd fel corfforaeth addysg uwch o dan adran 122(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn rhinwedd O.S. 1991/1976.